# trosglwyddo i maethu cymru conwy



maethu cymru Conwy | foster wales

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# trosglwyddo i

## maethu cymru

Maethu Cymru yw'r rhwydwaith cenedlaethol o wasanaethau maethu Awdurdodau Lleol dielw ledled Cymru, a'n tîm yng Nghonwy yw eich rhwydwaith cymorth lleol.

Dim eich asiantaeth faethu safonol yw Maethu Cymru - rydym yn llawer mwy cysylltiedig.

Mae'n ymwneud â dewis pobl, dim elw – fel sefydliad nid-er-elw, mae ein holl gyllid yn mynd yn uniongyrchol i'r gwasanaeth maethu a ddarparwn.

Rydym yn ymroddedig i weithio fel tîm gyda gofalwyr maeth i helpu i adeiladu dyfodol mwy disglair i blant lleol. Rydyn ni'n eu helpu i aros yn eu hamgylcheddau lleol cyfarwydd, pan fo hynny'n iawn iddyn nhw.

# eisoes yn ofalwr maeth?

Rydych chi eisoes wedi gwneud y penderfyniad anhygoel i wneud gwahaniaeth trwy ddod yn ofalwr maeth. Efallai eich bod eisoes yn maethu gydag asiantaeth faethu annibynnol, awdurdod lleol yn ein rhwydwaith Maethu Cymru neu'n ystyried symud i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Fel awdurdod lleol, ni yw'r rhiant corfforaethol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd. Fel Gwasanaeth Maethu rydym yn sicrhau ein bod yn gweithio'n agos gyda'r tîm o amgylch y plentyn. O ofalwr maeth y plentyn, i weithiwr cymdeithasol plant, gweithiwr cymorth gofal plant, ysgolion, cydlynydd addysg, seicolegydd clinigol a nyrs plant sy'n derbyn gofal. Rydyn ni i gyd o dan yr un to gyda'r un nod - darparu'r canlyniad gorau posibl i'r plant yn ein gofal.

| gwasanaeth maethu awdurdod lleol | asiantaeth faethu annibynnol |
| --- | --- |
| Gwefan .llyw (fel arfer) | Gwefan .com (fel arfer) |
| Mae timau maethu dielw awdurdodau lleol yn rhan o'r un sefydliad sy'n gweithio ochr yn ochr â'r gweithwyr cymdeithasol sy'n gyfrifol am y plant. | Busnesau preifat, cyfyngedig, er elw. Mae grwpiau o asiantaethau maethu yn aml yn eiddo i ecwiti preifat. Elusennau dielw neu nid-er-elw fel arfer gyda gwefan .org |
| Yn gyfreithiol gyfrifol am blant sy'n dod i ofal ac fel arfer yn cysylltu â'u teuluoedd maeth eu hunain yn gyntaf. | Dibynnu ar yr awdurdodau lleol i gysylltu â nhw am blant. |
| Mae gofalwyr yn cael eu paru â phlant o ystod oedran a ffefrir, o fabanod i bobl ifanc yn eu harddegau. | Yn nodweddiadol, plant hŷn, gydag anghenion heriol neu grwpiau o frodyr a chwiorydd pan nad yw awdurdodau lleol yn gallu paru â'u gofalwyr maeth eu hunain. |
| Gofalu am blant sy'n byw ac yn mynychu ysgol o fewn y sir, gan eu helpu i aros yn eu cymuned. | Cwmpasu ardal ddaearyddol eang. |



# pam trosglwyddo i maethu cymru conwy

Ni yw'r man cyswllt cyntaf ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc lleol sydd angen gofal maeth. Mae popeth a wnawn yn lleol – o Fae Colwyn, i Lanrwst, i Benmaenmawr a Bae Cinmel.

Yr hyn y mae hyn yn ei olygu mewn gwirionedd yw y byddech yn gallu ein helpu i ddarparu cartrefi diogel a sefydlog ar gyfer ein plant a phobl ifanc yn eu hardal leol. Mae hyn yn golygu y byddant yn gallu gweld ffrindiau a theulu, aros yn eu hysgolion lleol a pharhau i fynychu eu gweithgareddau lleol.

Mae'n ymwneud â gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i blant yng nghanol eich cymuned.

Mae llawer o fanteision eraill o faethu gyda Maethu Cymru Conwy. Byddwch yn rhan allweddol o dîm sydd i gyd yn gweithio ar y cyd â'r plentyn ar flaen y gad ym mhopeth a wnawn.

Rydym yn wasanaeth gwybodus sy'n cynnwys Timau Gofal Plant, Timau Addysg, Adran Hyfforddiant, Diogelu a Chyfreithiol a llawer mwy. Rydyn ni i gyd o dan yr un to sy'n ein galluogi i gydweithio'n agos.

Ym maes maethu awdurdodau lleol, rydym i gyd yma i gefnogi a gwerthfawrogi ein gofalwyr maeth, heb wneud elw.

"Yn fuan ar ôl i mi droi'n ddeugain, dechreuais faethu pobl ifanc yn eu harddegau trwy asiantaeth. Daeth llawer o'r bobl ifanc o'r tu allan i'r ardal. Roedd hyn yn eu rhoi ar y droed ôl. Collasant gysylltiad â'u ffrindiau, y lleoedd yr oeddent yn eu hadnabod, a'u gwreiddiau. Nawr fy mod yn maethu gydag awdurdod lleol, mae'r bobl ifanc yn aros yn lleol. Mae hyn yn golygu eu bod yn aros yn gysylltiedig â'u gwreiddiau sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel, ac mae'n fwy naturiol ar gyfer ymweliadau, mynediad ac amser teulu."


Jo, Gofalwr Maeth, Conwy

Bob blwyddyn mae tua 50 o ofalwyr maeth yn trosglwyddo o asiantaethau maethu masnachol i faethu awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae trosglwyddo i ni yn dechrau gyda sgwrs, nid oes unrhyw bwysau. Rydyn ni'n gwybod y gall newid deimlo'n frawychus a dyna pam rydyn ni'n eich cefnogi chi gam wrth gam, nes eich bod chi'n hapus eich bod chi'n gwneud y dewis cywir.

Ffoniwch ni ar 01492 576350 am sgwrs gychwynnol neu gallwch gysylltu â ni yn hawdd drwy ein gwefan: maethucymru.conwy.gov.uk

# beth i'w ddisgwyl gennym ni




- Cymorth a Hyfforddiant Cyn Cymeradwyo
- Rhwydwaith cymorth o ofalwyr maeth lleol ym Mwrdeistref Conwy
- Fframwaith Meithrin Dysgu a Datblygu, sy'n cynnwys dysgu wyneb yn wyneb, dysgu rhithwir ac ar-lein
- Aelodaeth Ffit Conwy ar gyfer holl aelodau'r cartref. Mae'r aelodaeth yn rhoi mynediad i chi i bob un o'r 10 canolfan ar draws Conwy
- Y gallu i brynu Cerdyn Premier ar gyfer Venue Cymru. Rhoi cynigion i chi ar sioeau dethol, archebu blaenoriaeth a 10% oddi ar Bwyty Y Review a Chaffi Bar Catlin's
- Mynediad i Grwpiau Cymorth rheolaidd, Diwrnodau Gwasanaeth a Digwyddiadau/Gweithgareddau (fel Sw Mynydd Cymreig a Zip World)
- Mynediad at Gymorth Llinell Ddyletswydd 24 Awr
- Y Fforwm Teuluoedd - sy'n cael ei redeg gan deuluoedd maeth eraill
- Incwm dibynadwy o daliadau ariannol sy'n gyson h.y. nid oes toriad yn y taliad os nad ydych yn gofalu am blentyn.
- Lwfansau hael ar gyfer y plant yr ydych yn gofalu amdanynt, mae hyn yn cynnwys lwfansau pen-blwydd a gwyliau
- Aelodaeth am ddim o'r Rhwydwaith Maethu (TFN)
- Cerdyn Max ac Aelodaeth Cadw sy'n cynnig y gallu i chi gael mynediad at ostyngiadau amrywiol
- Gofal yn Gyntaf
- Cyfle i'ch plant fynychu Grŵp Cefnogi yn benodol ar eu cyfer
- Hawl Gwyliau Blynyddol
- Lwfans milltiredd
- Eich Gweithiwr Cymdeithasol lleol eich hun ar gyfer cymorth, cyngor ac arweiniad parhaus.

# rhesymau y mae eraill wedi trosglwyddo




1. Ddim yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, heb glywed gan neb ers tro
2. Ddim yn gallu mynychu hyfforddiant lleol gyda gofalwyr maeth lleol
3. Teimlo'n annigonol ac yn ynysig
4. Daeth llawer o bobl ifanc o'r tu allan i'r ardal.
5. Cael eu rhoi dan bwysau i ofalu am blant nad oeddent yn cyd-fynd yn dda

# Llwybr 1 ddim yn gofalu am blentyn ar hyn o bryd




1. **Sgwrsiwch gyda'ch tîm Maethu Cymru Conwy.** Mae trosglwyddo i ni yn dechrau gyda sgwrs, nid oes unrhyw bwysau. Rydyn ni'n gwybod y gall newid deimlo'n frawychus a dyna pam rydyn ni'n eich cefnogi chi gam wrth gam, nes eich bod chi'n hapus eich bod chi'n gwneud y dewis cywir.

2. **Os byddwch yn penderfynu trosglwyddo i Maethu Cymru Conwy ar ôl ein hymweliad cartref cychwynnol.** Bydd angen i chi hysbysu eich asiantaeth bresennol o'ch bwriad i ymddiswyddo o'u hasiantaeth ac eisiau trosglwyddo i Maethu Cymru Conwy.


3. **Byddwch wedyn yn cyfarfod eich Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Asesu, a fydd yn gweithio gyda chi i gwblhau eich Asesiad Maethu.** Bydd angen i chi lenwi Ffurflen Gais a fydd yn ein galluogi i gwblhau ein gwiriadau cefndir helaeth. Bydd hyn hefyd yn cynnwys Asesiad Meddygol a DBS uwch. Byddwn hefyd yn trefnu Cyfarfod Trosglwyddo gyda'ch asiantaeth bresennol, chi ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill sy'n gysylltiedig.

4. **Unwaith y bydd eich asesiad wedi'i gwblhau byddwch yn mynychu ein Panel Maethu a fydd yn gwneud argymhelliad ar delerau eich cymeradwyaeth.** Unwaith y byddwch wedi'ch cymeradwyo gallwch roi 28 diwrnod o rybudd i'ch asiantaeth bresennol.

# Llwybr 2 yn gofalu am blentyn ar hyn o bryd

**1.** **Yn dilyn camau cychwynnol Llwybr 1, unwaith y byddwch wedi hysbysu eich asiantaeth o'ch dymuniad i symud i Maethu Cymru Conwy, byddant yn hysbysu swyddog adolygu annibynnol y plentyn o'ch bwriad i symud.**

Yna byddant yn cynnal cyfarfod gan gynnwys pawb sy'n ymwneud â gofalu am y plentyn: chi, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn, eich asiantaeth bresennol, a ni.




**2.** **Bydd y cyfarfod yn:**

- Sicrhau fod anghenion y plentyn/plant yn parhau i gael eu diwallu a bod eu cynllun(iau) gofal yn cael eu trafod gyda ni fel eich tîm cymorth newydd.
- Trafod anghenion y plentyn a chithau fel gofalwyr maeth, sut mae'r rhain wedi'u bodloni o'r blaen a beth all fod yn ofynnol wrth symud ymlaen.
- O dan ba amgylchiadau y gall Maethu Cymru Conwy leoli plentyn neu blant arall unwaith y bydd eich trosglwyddiad i ni wedi'i gwblhau.
- Byddwn yn gofyn am unrhyw ddogfennaeth berthnasol fel eich Adolygiad Blynyddol diwethaf a Ffurflen F.

**3.** Tra bod hyn i gyd yn digwydd byddwn yn parhau â'r broses asesu a chymeradwyo.

# cwestiynau cyffredin

### Oes rhaid i mi gael asesiad ffurfiol i drosglwyddo i Maethu Cymru Conwy?


Oes, ond dylai fod yn broses gyflymach na'ch asesiad blaenorol os gallwch roi eich asesiad gwreiddiol i ni. Bydd yn rhaid i chi fynychu hyfforddiant Paratoi i Faethu, a chael y gwiriadau cefndir arferol ac yna bydd eich asesiad yn cael ei gyflwyno i'n panel maethu yn y ffordd arferol.

### A oes angen profiad o faethu arnaf i drosglwyddo i Maethu Cymru Conwy?

Os ydych yn ofalwr maeth cymeradwy gydag asiantaeth faethu annibynnol neu awdurdod lleol, ond nad ydych wedi maethu plentyn gyda nhw eto, gallwch barhau i drosglwyddo i faethu gyda Maethu Cymru Conwy.

Byddwn yn croesawu'r rheini ar unrhyw gam o'u taith faethu, gan ein bod yn deall nad yw gwerthoedd ac egwyddorion maethu gydag asiantaeth bob amser yn bodloni disgwyliadau cychwynnol.

Yn Maethu Cymru Conwy, y sgiliau a'r profiad sydd bwysicaf i chi. Byddwn yn sicrhau eich cefnogi bob cam o'r ffordd o ddechrau eich asesiad i gael plentyn yn dod i aros gyda chi.



## A allaf drosglwyddo os wyf eisoes yn maethu plentyn o awdurdod lleol Conwy?


Gallwch, a byddem yn annog hyn yn frwd. Mae eich plentyn eisoes yn cael ei gefnogi gennym ni a'n tîm gofal plant. Fel y bobl allweddol yn y tîm o amgylch y plentyn sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda ni, bydd yn galluogi'r gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda'r plentyn i weithio'n agosach gyda chi a sicrhau bod cynllun gofal y plentyn yn adlewyrchu eu hanghenion ac yn gweithio gyda'i gilydd i adeiladu bywydau gwell i blant sy'n derbyn gofal. .

## A allaf drosglwyddo os wyf eisoes yn maethu plentyn gydag awdurdod lleol arall?

Gallwch. Y brif flaenoriaeth yw lles gorau'r plentyn rydych yn gofalu amdano. Byddwn yn trefnu Cyfarfod Trosglwyddo gyda Gweithiwr Cymdeithasol y plentyn lle byddwn yn archwilio eu Cynllun Gofal parhaus, anghenion cymorth ac yn archwilio unrhyw effaith bosibl y byddai chi’n trosglwyddo i Maethu Cymru Conwy yn ei gael ar y plentyn.

## Pa mor hir y bydd yn ei gymryd i drosglwyddo?

Rydym yn gwneud pob ymdrech i ddyrannu Asesiad Maethu i Weithiwr Cymdeithasol sy'n Asesu cyn gynted â phosibl. Gyda'ch cydweithrediad, ein nod yw eich cael chi yn y Panel Maethu a'ch cymeradwyo o fewn amserlen fer, yn ddelfrydol o fewn 4 i 6 mis.



# pam ymunodd rhai o'n gofalwyr maeth â thîm maethu cymru

"Roeddwn i eisiau gallu cael cymorth lleol gan ofalwyr maeth lleol eraill sy'n adnabod yr ardal a gwasanaethau lleol y gallwn i gael mynediad iddynt."

"Mae'r plant rydw i'n gofalu amdanyn nhw nawr yn gallu parhau i weld eu teulu a'u ffrindiau yn eu hardal leol."

"Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn agored ac yn onest drwyddi draw. Ond yn bwysicach, yn agos atoch."

maethu cymru Conwy | foster wales

01492 576360
maethucymru.conwy.gov.uk